# Adroddiad: Nadolig

*'Nadolig'*

*'Blodeugerdd o Gerddi Crefyddol a Gweddïau i Blant'*,
gol. Rheinallt Thomas

'Trwy ddirgel ffyrdd' fe ymgnawdolodd Un

A ddaeth yn grefftwr coed a cherddwr gwlad,

Cafodd yn fam forwynig deg ei llun

A gŵr o'r werin wylaidd oedd ei dad.

Noson ei eni canai côr y nen,

A theithiodd tri gŵr doeth dros graster sych

Gan ddilyn seren newydd sbon uwchben

Nes dyfod yn y man at lety'r ych.

R'ôl ugain canrif – dal a wnawn o hyd

I ddathlu'r geni mewn amrywiol ffyrdd,

Gwleddoedd, a gloddest, ac anrhegion drud

A drachtio gwinoedd dan y celyn gwyrdd.

Tybed a gawn ni bardwn gan Fab Mair

Am ddathlu ei ben-blwydd fel ffyliaid ffair?

*Iorwerth H. Lloyd*